



**Canllawiau ar Gynhyrchu Rhaglenni Teledu:  
Rheoli risg y Coronafeirws (COVID-19) wrth gynhyrchu  
(Fersiwn 1)**

Fframwaith lefel uchel yw'r ddogfen hon er mwyn darparu canllawiau a chymorth ar gyfer mynd ati'n effeithiol i asesu a rheoli risg y Coronafeirws (COVID-19) wrth gynhyrchu rhaglenni teledu. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â chanllawiau cyffredinol a ddarperir gan y llywodraeth ynghylch rheoli risgiau'r Coronafeirws (COVID-19) mewn gweithleoedd.

O dan y canllawiau hyn:

Bydd yn rhaid i **gynhyrchwyr** wneud y canlynol:

- cynnal asesiad risg addas a digonol yn ymwneud â risgiau'r Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer eu gweithgareddau,
- cofnodi mewn dogfen asesu risg COVID-19 sut y maent yn rheoli risgiau sylweddol yn ymwneud â'r Coronafeirws (COVID-19),
- ymgysylltu â'u gweithlu (ac unrhyw undeb llafur a/neu gynrychiolwyr gweithwyr) ynglŷn â'r broses hon (gan gyflwyno gwybodaeth i weithwyr ynglŷn â sut y byddant yn cael eu cadw'n ddiogel, cyn dechrau ar y gwaith cynhyrchu),
- arddangos [gwybodaeth](#) am gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth mewn gweithleoedd yn y ffurf a nodir yng nghanllawiau'r llywodraeth,
- llunio gwybodaeth i sicrhau eraill (yn cynnwys Comisiynwyr) bod asesiadau priodol wedi'u cynnal, gan gyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefan pa bryd bynnag y bo modd, yn enwedig os oes ganddynt fwy na 50 o weithwyr.

Bydd yn rhaid i **Ddarlledwyr Comisiynu** hefyd ymgysylltu â Chynhyrchwyr ynglŷn â sut y caiff risgiau COVID-19 eu hasesu a'u rheoli, oherwydd bydd rhai mesurau a chyfyngiadau yn effeithio ar y costau cynhyrchu ac ar y cynnwys ei hun.

Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno gwybodaeth gefndir a chanllawiau ar gynnal asesiad risg mewn perthynas â chynhyrchu rhaglenni teledu. Cynhwysir manylion am y gofynion sylfaenol a'r meysydd y dylid eu hystyried, ynghyd â'r mesurau rheoli. Gellir dod o hyd i wybodaeth a chanllawiau diweddaraf y llywodraeth ar wefan [GOV.UK](#).

Mae COVID-19 yn risg iechyd a diogelwch y dylid ei hystyried o fewn y trefniadau cyfrifoldeb cyffredinol sy'n sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch priodol yn cael eu cyflawni a'u cynnal trwy gydol y broses gynhyrchu.

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ystod a graddfa eang yr holl raglenni a gynhyrchir ym mhob genre ar gyfer y teledu. Gellir dod o hyd i wybodaeth a chanllawiau penodol ar reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ffilmiau a dramâu teledu o safon yng nghanllawiau Comisiwn Ffilm Prydain, a dylid ystyried y canllawiau hyn hefyd ar gyfer cynyrchiadau o fewn y genre honno.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio trwy gydweithrediad arbenigwyr ar draws y diwydiant yn y maes hwn ynghyd ag arbenigedd allanol gan Dr Paul Litchfield CBE a Mary Lawrence, Partner, Osborne Clarke LLP.

### **Cefndir**

Dyma amgylchiadau eithriadol, a dylai'r diwydiant gydymffurfio bob amser â chyngor diweddaraf y Llywodraeth ynghylch y Coronafeirws (COVID-19).

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar gymhwyso canllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn ymarferol, mewn lleoliad cynhyrchu rhaglenni teledu; efallai y bydd cyfyngiadau eraill ar waith yn yr Alban, yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon ac ar Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn ystyried canllawiau Iechyd Cyhoeddus Lloegr mewn perthynas â rheoli risgiau yn y gweithle wrth weithredu rheoliadau Iechyd a Diogelwch perthnasol.

Y canllawiau hyn fydd y man cychwyn ar gyfer unrhyw gynyrchiadau y bydd cwmnïau cynhyrchu yn y DU yn mynd i'r afael â nhw; ond, yn amlwg, ym mhob achos unigol bydd angen i'r cwmni cynhyrchu fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau'n ymwneud â gwledydd penodol.

### **A allwn barhau i gynhyrchu rhaglenni teledu yn y DU?**

Ni fyddir yn benodol y dylai gweithgareddau cynhyrchu rhaglenni teledu ddod i ben, ac ychwaith nid yw'r gyfraith sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth y Coronafeirws – sef Deddf y Coronafeirws 2020 – yn cyfyngu ar roi gweithgareddau o'r fath ar waith (ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw gantîn yn y gweithle). Mae'r cyfyngiadau sy'n berthnasol yn ymwneud â'r angen i bobl aros gartref a gadael y tŷ am resymau a nodir yn unig. Un o'r rhesymau hyn yw gwaith (ond dim ond os na ellir gweithio gartref). Dylid nodi nad yw 'gwaith', efallai, yn cynnwys unigolion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, nad ystyrir eu bod, o bosibl, yn gweithio (e.e. pobl sy'n gystadleuwyr mewn rhaglenni teledu, cyfranwyr di-dâl ac ati). Dylech geisio cyngor priodol ar ddehongli'r gofyn cyfreithiol penodol hwn os yw'r bobl hyn yn hollbwysig i gynnwys eich rhaglen. Mae'r cyfyngiadau'n nodi na ddylai mwy na 2 berson ymgynnull mewn man cyhoeddus. Mae eithriad i'w gael 'pan fo ymgynnull yn hanfodol at ddibenion gwaith'.

Mewn nifer o amgylchiadau, ni ellir cynhyrchu rhaglenni teledu'n gyfan gwbl pan fo pobl yn gweithio gartref, ac felly dylid rhoi egwyddorion asesiadau risg a deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar waith wrth reoli risg y Coronafeirws (COVID-19), gan ystyried canllawiau Iechyd Cyhoeddus Lloegr wrth wneud hynny.

Dylid cynllunio sut i reoli risgiau'r Coronafeirws (COVID-19) trwy gydweithio'n agos â'ch rhwydwaith comisiynu. Os ydych yn cyflogi trydydd partion i ddarparu cyfarpar neu wasanaethau allweddol i'r cynhyrchiad, dylech adolygu eu cynlluniau ar gyfer rheoli risg y Coronafeirws (COVID-19) fel rhan o'ch gwaith cynllunio chi eich hun pan fo modd iddynt effeithio ar risg gyffredinol eich cynhyrchiad a/neu pan fyddwch yn ddibynnol arnynt i ddarparu pobl, cynhyrchion neu wasanaethau sy'n allweddol i'ch cynhyrchiad, neu'n benodol pan allent effeithio ar eich cynllun chi ar gyfer rheoli risg y Coronafeirws (COVID-19).

Mewn rhai amgylchiadau, gellir adrodd am heintiau COVID-19 dan RIDDOR <https://www.hse.gov.uk/news/riddor-reporting-coronavirus.htm>. Dylid ystyried y gofynion hyn o fewn y protocolau cynhyrchu.

Wrth roi'r canllawiau hyn ar waith, dylai cyflogwyr gadw anghenion penodol gwahanol grwpiau o weithwyr neu unigolion mewn cof. Mae gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail nodwedd warchoddedig fel oedran, rhyw neu anabledd – boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – yn groes i'r gyfraith. Hefyd, mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau penodol tuag at weithwyr anabl a'r rhai sy'n famau newydd neu'n famau beichiog.

## **Y Coronafeirws – (COVID-19) Canllawiau Aseiad Risg**

### **Gofynion sylfaenol**

- 1. Mynd ati'n benodol i ystyried pobl sy'n wynebu risg uwch o gael niwed**
- 2. Cynyddu'r rhagofalon ar gyfer pawb yn y gwaith**
- 3. Lleihau nifer y bobl sy'n cymryd rhan**
- 4. Ystyried gofynion 'ar gamera' golygyddol**
- 5. Ystyried iechyd meddwl a llesiant**
- 6. Dolen adborth**

#### **1. Mynd ati'n benodol i ystyried pobl sy'n wynebu risg uwch o gael niwed**

Mae'r Coronafeirws (COVID-19) yn glefyd sy'n fwy tebygol o arwain at salwch difrifol (a hyd yn oed marwolaeth) mewn rhai grwpiau o bobl. Yn achos y bobl hynny sy'n perthyn i'r grwpiau bregus hyn, neu'r rhai sy'n byw ar aelwyd lle ceir pobl o fewn y categori [eithriadol o agored i niwed yn glinigol](#), dylai eu cyfranogiad gael ei ystyried fesul achos er mwyn gweld a yw'n briodol iddynt gymryd rhan, ac os felly, pa ragofalon ychwanegol y dylid eu rhoi ar waith.

Dylech gyflwyno ffordd briodol o bennu pwy sy'n [eithriadol o agored i niwed yn glinigol](#) neu sy'n wynebu risg uwch gan eu bod mewn grŵp [agored i niwed yn glinigol](#). Dylai'r rhai sy'n perthyn i'r categori eithriadol o agored i niwed yn glinigol aros yn eu cartrefi ac ni ddylent fynd i'w gweithle. Yn achos pobl sy'n wynebu risg uwch, ond nad ydynt yn siŵr a oes angen iddynt aros gartref am resymau iechyd, dylech drafod eu cyfranogiad gyda nhw yng nghydestun y cyngor a gawsant gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol, a phe bai'n briodol, unrhyw gynghorydd meddygol sydd gan y cwmni.

#### **2. Cynyddu'r rhagofalon ar gyfer pawb yn y gwaith**

Mae'n hanfodol i bawb sy'n gysylltiedig â chynhyrchu roi arferion da ar waith o ran cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo. Dyma arfer dda: 'Golchi eich dwylo am fwy nag 20 eiliad. Defnyddio dŵr a sebon neu hylif diheintio dwylo: ar ôl ichi gyrraedd adref neu gyrraedd eich gwaith, ar ôl ichi chwythu eich trwyn, tisian neu besychu, a chyn ichi fwyta neu drin bwyd'.

Rhaid i bawb sydd â symptomau, neu sy'n byw gyda rhywun sydd wedi datblygu symptomau, aros gartref yn unol â chyfarwyddiadau presennol y Llywodraeth. Dylech ystyried y ffordd orau o ategu'r neges hon o fewn eich cynhyrchiad. Gall hyn fod ar ffurf datganiad, archwiliadau dyddiol neu gyfnodol, neu ffyrdd eraill yr ystyrir eu bod yn briodol i'ch cynhyrchiad. Os bydd y broses a gyflwynir yn casglu unrhyw ddata personol, rhaid ichi sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Pe bai rhywun yn datblygu symptomau tra mae yn y gwaith, dylai fynd adref yn syth a rhoi gwybod i'w reolwr llinell. Ceisiwch osgoi cysylltiad â phobl sydd â symptomau. Pe bai prawf yn dangos bod yr unigolyn yn dioddef o COVID-19, mae'n bwysig i'r bobl sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r unigolyn hwnnw yn y gweithle gael gwybod yn y ffordd fwyaf priodol a chael cyngor priodol (yn y rhan fwyaf o achosion, yr hyn y dylent ei wneud pe baent yn mynd yn sâl neu'n datblygu symptomau).

Rhaid cwblhau'r dasg hon trwy roi ystyriaeth ddyladwy i ddulliau priodol o ddiogelu gwybodaeth a data personol. Gellir diffinio cysylltiad agos fel rhywun sy'n byw ar yr un aelwyd, rhywun sydd wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol neu gorfforol ag unigolyn heintiedig, neu rywun sydd wedi bod o fewn dau fetr i'r claf am fwy na 15 munud.

Gwres uchel yw un o'r arwyddion mwyaf cyffredin o ddatblygu COVID-19. Felly, efallai y dewiswch wirio gwres pobl sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad. Os felly, bydd yn rhaid llunio protocolau priodol a rhoi ystyriaeth ddyladwy i unrhyw fater posibl yn ymwneud â phreifatrwydd data.

Gwnewch yn siŵr fod rhifau cyswllt a manylion cyswllt argyfwng pawb wedi'u diweddarau a bod pawb yn llwyr ymwybodol o'r symptomau a'r adegau pan na ddylent fod yn y gwaith.

Dylai amserlenni a chynlluniau cynhyrchu ystyried yr amser ychwanegol sydd ei angen i roi'r mesurau angenrheidiol ar waith dan y canllawiau hyn. Efallai hefyd y bydd angen darparu hyfforddiant penodol i dimau cynhyrchu yn ymwneud â rheoli risg COVID-19, er mwyn cynnig canllawiau penodol ar sut i roi'r mesurau a bennwyd ar waith a deall y risgiau. Bydd angen i'r hyfforddiant hwn fod yn addas, yn ddigonol ac yn amserol, a dylid ei bennu trwy'r broses asesu risg.

### **3. Lleihau nifer y bobl sy'n cymryd rhan**

*Dyma ffordd allweddol o reoli'r risg, a dylid ystyried hyn cyn cynnal asesiad risg manylach. Dyma ystyriaethau allweddol;*

- Lleihau nifer y gweithwyr y mae eu hangen ar y safle i gwblhau'r gwaith.
- Gwneud yn fawr o dechnoleg fel y gellir cyflawni rolau a gweithgareddau o'r cartref ac o bell pa bryd bynnag y bo modd.
- Gwahanu pobl yn yr ardal waith er mwyn lleihau cysylltiad agos a chadw pellter cymdeithasol cyn belled ag y bo modd.

#### **Nodiadau:**

Yn achos rolau sy'n allweddol o ran sicrhau diogelwch yn ystod gweithgareddau risg uwch ar y set, dylid ystyried y rolau hyn yn hanfodol i gynnal y gweithgareddau hynny. Dylid pennu'r rhain yn yr asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau risg uwch (fel styntiau neu effeithiau arbennig).

Mae yna grwpiau penodol o bobl a all fod angen mynd ar y set, yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur ac ymweliadau hanfodol gan asiantau neu gynghorwyr proffesiynol. Dylid cynnal yr ymweliadau hyn yn unol â'r mesurau diogelwch a gyflwynwyd ar gyfer y lleoliad. Ni ddylai unrhyw leihad cyffredinol yn nifer y bobl gael effaith negyddol ar agweddau diogelwch eraill y cynhyrchiad (sef rhai nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19).

### **4. Ystyried gofynion 'ar gamera' golygyddol**

*Risg allweddol i'w hystyried yw sut y gellir bodloni a chytuno ar ofynion creadigol a golygyddol y cynhyrchiad gyda Rhwydweithiau Comisiynu o fewn terfynau'r cyfyngiadau presennol.*

*Dyma ystyriaethau allweddol;*

- Newidiadau i sgrïptiau a golygfeydd er mwyn rhoi ystyriaeth i gadw pellter cymdeithasol.
- Newidiadau i'r set er mwyn rhoi ystyriaeth i gadw pellter cymdeithasol.
- Defnyddio 'sgriniau gwyrdd' i weithio o bell (**'down the line'**) i gynorthwyo i leihau'r niferoedd ar y cynhyrchiad.
- Dylid darparu sgrïptiau cyn gynted ag y bo modd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio.
- Efallai y bydd yn rhaid cynnwys cyfarwyddwyr a rolau perthnasol eraill ynghynt wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y cynhyrchiad, fel y gellir gweld beth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynhyrchiad o fewn y cyfyngiadau ar gyfer rheoli risgiau COVID-19.

Pan fydd y darpariaethau a gyflwynir i reoli risgiau COVID-19 yn arwain at ofynion ychwanegol ar y cast y tu allan i'w cyfnod gwaith, dylid trafod y rhain yn llwyr ymlaen llaw.

## **5. Iechyd meddwl a llesiant**

Mae'n bwysig cofio y gall y pandemig COVID-19 gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl. Efallai y bydd y rhai sy'n gorfod gweithio gartref yn teimlo fel pe baent wedi'u hynysu rhag cymdeithas, ac efallai y bydd y rhai sy'n gorfod mynd i stiwdio neu leoliad arbennig yn ofni y byddant yn cael eu heintio. Felly, mae'n hanfodol ystyried llesiant ac iechyd meddwl cyffredinol yn yr asesiad risg cynhyrchu ac mae'n hanfodol i'r rhai sy'n gyfrifol ddeall anghenion a gofynion eu timau mewn perthynas â llesiant.

Dylai'r cymorth a gynigir ar draws cynyrchiadau gael ei bennu a'i gyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd drwy gydol y cynhyrchiad. Gall hyn amrywio o fodel 'cymheiriaid i gymheiriaid' i linellau cymorth a/neu blatfformau ar-lein priodol.

Yn y DU, mae'r Elusen Ffilm a Theledu wedi ymrwymo i gynorthwyo'r gweithlu ffilm a theledu i ddychwelyd at gynhyrchu ar ôl COVID-19 ac mae ganddi nifer o adnoddau defnyddiol ynghyd â llwybrau cymorth i'r gweithlu.

## **6. Dolen adborth**

Mae'n bwysig sicrhau bod timau cynhyrchu yn rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion (a llwyddiannau/gwersi a ddysgwyd) er mwyn gwneud yn siŵr fod y broses asesu risg yn effeithiol a'i bod yn cael ei hadolygu'n weithredol.

O safbwynt cynhyrchu, mae'n bwysig cael gweithdrefn glir ar gyfer mynegi pryderon. Dylech hefyd ystyried a fyddai ymrwymiad pendant na fydd neb yn wynebu cosbau am wrthod â dychwelyd i weithio mewn amgylchedd anniogel, yn cynorthwyo pobl i fynegi pryderon.

## **Y Coronafeirws (COVID-19) – Canllawiau Asesiad Risg**

### **[Meysydd i'w hystyried a mesurau rheoli](#)**

Nodir isod y meysydd allweddol y dylid eu hystyried mewn asesiadau risg Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer cynhyrchu. Caiff y mesurau rheoli a nodir eu pennu yn unol â hierarchaeth

mesurau rheoli (mesurau rheoli corfforol yw'r rhai mwyaf effeithiol a mesurau rheoli sy'n dibynnu ar ymddygiad pobl yw'r rhai lleiaf effeithiol).

1. **Teithio** – tudalen 7
2. **Lleoliad** – tudalen 7
3. **Gweithgareddau Gwaith** – tudalen 9
4. **Cyfarpar Gwaith** – tudalen 10
5. **Patrymau Gwaith** – tudalen 11
6. **Mannau Gorffwys** – tudalen 11
7. **Cymorth Cyntaf a'r Gwasanaethau Brys** – tudalen 12
8. **Masgiau, Menig a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) Arall** – tudalen 12
9. **Iechyd Meddwl** – tudalen 14

## 1. Teithio

*Ceisiwch deithio cyn lleied ag y bo modd a dilynwch egwyddorion cadw pellter cymdeithasol o fewn trefniadau teithio pa bryd bynnag y bo modd. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

### Corfforol

- Ceisiwch ddefnyddio criw a chyfranwyr lleol er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- Cofiwch osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus pan fo modd.
- Cadwch at un person ym mhob cerbyd pan fo modd, ond cofiwch asesu'r risg sydd ynghlwm wrth hyn o safbwynt blinder/lludded y sawl a fydd yn gyrru gartref.

### Cynllunio

- Os bydd yn rhaid defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ceisiwch drefnu i bobl deithio ar adegau tawelach o'r dydd, ond peidiwch ag anghofio am risgiau diogelwch personol.
- Os bydd mwy o bobl nag arfer yn gyrru i'r gweithle, ystyriwch a oes gennych gyfleusterau parcio priodol.
- Ar gyfer unrhyw deithio rhyngwladol, dylech sicrhau eich bod yn cynllunio ar gyfer gofynion lleol a chyfyngiadau cwarantín, wrth adael y wlad ac wrth ddychwelyd iddi.

### Pobl

- Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn cynnwys tacsis neu gerbyd y byddwch wedi'i rannu ag eraill.
- Glanhewch fannau a gaiff eu cyffwrdd yn aml mewn cerbydau.

## 2. Lleoliad

*Ystyriwch gapasiti corfforol y lle o gofio am ofynion cadw pellter cymdeithasol ynghyd â darpariaeth cyfleusterau hylendid allweddol, risgiau y gallech fod yn eu cyflwyno i eraill sydd eisoes yn defnyddio'r lle a glanhau'r safle cyn ac yn ystod y cyfnod y byddwch yn ei ddefnyddio. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

### Corfforol

- Mae ffilmio yn yr awyr agored yn ddewis amgenach (er nad mewn man cyhoeddus yn ddelfrydol). Fodd bynnag, os byddwch dan do, anelwch at gael man agored mawr ag awyru da. Cofiwch osgoi ystafelloedd bach pan fo modd.

- Mae cadw pellter corfforol o 2m rhwng unigolion yn golygu 4m<sup>2</sup> fesul person mewn man clir neu 6m<sup>2</sup> mewn man â dodrefn neu gyfarpar. O ystyried y ffigurau hyn, gallai llwyfan mawr 15,000 o droedfeddi sgwâr (1380m<sup>2</sup>) ddal oddeutu 230 o bobl, a gallai set fach 4,500 o droedfeddi sgwâr (400m<sup>2</sup>) ddal oddeutu 60 o bobl.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych fannau digon mawr i 'ddal' criwiau, er mwyn i dimau allu gweithio bob yn ail yn yr ardal waith.
- Os ydych yn defnyddio cerbydau ar y lleoliad, ac os nad yw ôl troed y cerbyd yn ddigon mawr ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, dylech sicrhau bod cyn lleied o bobl ag y bo modd yno a dylech gyflwyno mesurau priodol eraill fel y rhai a nodir yn yr adran gweithgareddau gwaith.
- Os defnyddir cartrefi i ffilmio (cartrefi cyflwynwyr, er enghraifft), rhaid ystyried y risgiau a gaiff eu cyflwyno i'r amgylcheddau hyn, yn sgil cyflwyno cyfarpar neu bobl ychwanegol er enghraifft.
- Ewch ati'n rheolaidd i lanhau a diheintio gwrthrychau ac arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn rheolaidd, gan ddefnyddio nwyddau glanhau safonol.
- Gwnewch yn siŵr fod yna fannau ar gael i olchi dwylo am 20 eiliad, lle ceir dŵr cynnes a sebon a/neu hylif diheintio fel y bo'n briodol.
- Gwnewch yn siŵr fod unrhyw hylif diheintio a ddarperir yn hylif effeithiol (hylif alcohol 60%).
- Mewn ambell awdurdodaeth mae gorchuddion/masgiau wyneb anfeddygol yn angenrheidiol i reoli lledaeniad y feirws o fewn y gymuned (Ynys Jersey, er enghraifft).
- Os ydych yn ffilmio mewn lleoliad/cyfleuster, dylech gadarnhau bod trefniadau glanhau priodol ar waith cyn mynd yno ynghyd â sicrhau bod darpariaethau glanhau rheolaidd i'w cael tra byddwch ar y safle. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar lanhau yma (<https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings>).
- Os ydych yn bwriadu ffilmio dramor, bydd angen ichi ystyried argaeledd teithio, llety a gofal iechyd, a bydd angen ichi geisio cymorth gan eich cynghorydd iechyd a diogelwch.

## Cynllunio

- Rhowch farciau ar y llawr i ddangos pellter o 2m, yn enwedig yn y manau mwyaf poblog.
- Defnyddiwch lwybrau un ffordd i leihau'r niferoedd – e.e. bydd grisiau'n cael eu dynodi naill ai fel grisiau i fyny neu risiau i lawr, a byddant yn cael eu marcio felly.
- Wrth gynllunio llwybrau i mewn/allan, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried mynedfeydd/allanfeydd argyfwng a pha un a fyddai llwybrau un ffordd yn berthnasol yn yr amgylchiadau hyn.
- Rolau/cyfrifoldebau penodol i gynorthwyo i ategu negeseuon allweddol yn ymwneud â hylendid a chadw pellter cymdeithasol. Er enghraifft unigolion enwebedig o fewn y criw sy'n atgoffa pobl yn rheolaidd am negeseuon allweddol ynglŷn â'r angen i gadw 2m ar wahân a mesurau y mae'n rhaid eu dilyn ar y set er mwyn sicrhau hyn (llwybrau un ffordd, ble i fynd yn ystod amser gorffwys ac ati).
- Arwyddion a negeseuon priodol ar gyfer negeseuon allweddol yn ymwneud â hylendid



a chadw pellter; gall hyn gynnwys sesiynau briffio dyddiol gyda'r criw, er enghraifft.

- Arwyddion a negeseuon priodol yn sôn am symptomau'r Coronafeirws (COVID-19) a'r adegau pan na ddylid dod i'r gwaith. Dylai'r rhain gael eu hategu mewn lleoliadau priodol.
- Os ydych yn ffilmio mewn mannau y gall y cyhoedd fynd iddynt, marciwch yn glir yr ardal lle byddwch yn ffilmio a darparwch wybodaeth wrth fynedfeydd/allanfeydd am unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith, fel nifer y bobl yn yr ardal.
- Ar gyfer criwiau bach sy'n ffilmio ar leoliad mewn mannau cyhoeddus, ystyriwch yr angen i geisio atal y cyhoedd rhag ymgynnull i wyllo, ynghyd â ffordd briodol o gyflawni hyn.

### Pobl

- Gwnewch yn siŵr fod pobl yn cael eu cyfarwyddo a'u monitor mewn perthynas â chadw at arferion da'n ymwneud â rheoli heintiau:
  - Cadw pellter cymdeithasol.
  - Hylendid dwylo.
  - Peidio â chyffwrdd yr wyneb cyn belled ag y bo modd, a golchi/diheintio'r dwylo os cyffyrddir â'r wyneb.
  - Lleihau'r arfer o symud gwrthrychau neu ddogfennau o law i law trwy eu gosod i lawr fel y bydd modd i'r sawl sydd eu hangen eu glanhau cyn eu codi.
  - Lleihau'r arfer o gyffwrdd ag arwynebau y bydd llawer o bobl yn cyffwrdd â nhw (e.e. dolenni drysau, bysellfyrdau, pennau byrddau ac ati), gan eu glanhau'n rheolaidd.
  - Gellir rhoi ffurflenni mewn waled blastig y gellir ei glanhau.
- Anogwch bobl i symud i fannau eraill yn hytrach nag aros mewn mannau sy'n union wrth ymyl y gwaith ffilmio, lle byddent 'wrth gefn' fel arfer.
- Pe bai aelodau o'r cyhoedd yn ymgynnull i wyllo, rhowch y gorau i ffilmio pe bai angen ac arhoswch iddynt wasgaru.

### 3. Gweithgareddau Gwaith

*Ystyriwch y gweithgareddau y bydd angen i bobl fynd i'r afael â nhw mewn gwahanol rolau yn y cynhyrchiad, a pha un a oes modd addasu neu newid y rhain i leihau'r risgiau. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

#### Corfforol

- Cynlluniwch y cynhyrchiad fel y bydd modd cadw at y rheol pellter 2m rhwng pob unigolyn – e.e. gwahanu cyflwynwyr/cyfranwyr ar y set.
- Defnyddiwch fŵm neu microfônau sefydlog i osgoi cysylltiad a chynnal pellter 2m.
- Pan fydd angen microfônau radio, sefydlwch brotocol ar gyfer eu glanhau cyn eu dosbarthu ac ar ôl iddynt gael eu dychwelyd, ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut y gall y cyflwynydd/cyfrannwr osod y microfôn ei hun.
- Ystyriwch ddefnyddio rhwystr naturiol ar y set neu'r lleoliad (e.e. ffenestri, drws gwydr) rhwng pobl.
- Ystyriwch gyflwyno rhwystrau fel plecsiglas i wahanu pobl sy'n agos at ei gilydd am gyfnodau maith. Efallai y bydd rhwystrau o'r fath yn fwyaf addas mewn cerbyd neu ystafell olygu, ond dylid ystyried eu heffeithiolrwydd ac efallai y bydd angen ceisio

cyngor arbenigol.

- Ewch ati i adolygu ac addasu cynllun y set er mwyn lleihau'r angen i weithio'n agos a lleihau'r amser rigio.
- Defnyddiwch yr holl le sydd ar gael yn y stiwdio i leihau amseroedd cyflawni a defnyddiwch stiwdio arall (os bydd un ar gael) i osgoi symud offer/golygfeydd ac ati yn ddiangen.
- Sgriptiwch unrhyw symudiadau pa bryd bynnag y bo modd, er mwyn gallu rhoi'r rheol pellter 2m at waith.
- Galluogwch bobl i wneud eu colur eu hunain neu trwy gyfarwyddyd o bell.
- Ewch ati i leihau neu gyfyngu ar unrhyw achos o ailwampio colur ar y set.
- Anelwch at gael pobl i osod eu microffonau eu hunain cyn belled ag y bo modd.
- Peidiwch â throsglwyddo dilladau'n uniongyrchol o staff yr adran ddillad i'r actorion/cyflwynwyr.
- Ystyriwch storfa unigol ar gyfer propiau a storfa lle mai ond yr unigolyn sy'n eu defnyddio all gael mynediad.
- Ystyriwch ddarparu sgriptiau'n ddigidol ynghyd ag unrhyw anghenion hyfforddi cysylltiedig.

### Cynllunio

- Amseroedd dechrau dros gyfnodau gwahanol yn enwedig ar ddiwrnodau paratoi/rigio.
- Ystyriwch brynu colur a'i anfon yn syth at yr unigolyn, gan ofyn i'r unigolyn ei gadw – cyfarwyddyd ar sut i roi colur ar-lein cyn cyrraedd y set/lleoliad neu roi arferion cadw pellter cymdeithasol ar waith tra bydd yr unigolyn ar y set.
- Ystyriwch fonitorau ar wahân ar gyfer y rhai sydd eu hangen neu os ydynt yn brin – system gylchdroi er mwyn parhau i gadw pellter cymdeithasol.
- Pan nad oes modd aros 2 fetr ar wahân, a phan mae angen i'r gweithgaredd barhau er mwyn i'r cynhyrchiad allu cario yn ei flaen, dylid gweithio ochr yn ochr neu gefn yng nghefn, yn hytrach nag wyneb yn wyneb, os oes modd.
- Pan mae cysylltiad wyneb yn wyneb yn hanfodol, efallai y bydd angen ceisio cyngor arbenigol ynglŷn â sut i reoli'r risg.

### Pobl

- Dilynwch arferion hylendid da ym mhob gweithgaredd gwaith bob amser.

## 4. Cyfarpar Gwaith

*Mae cyfarpar gwaith yn allweddol i gynhyrchu rhaglenni teledu, o gamerâu a phensetiau i ystafelloedd golygu. Dylid mynd i'r afael â hylendid da ynghyd â rheoli problemau posibl â manau a gânt eu cyffwrdd yn aml. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

### Corfforol

- Pan fo modd, dylai pobl gael cyfarpar gwaith wedi'i neilltuo ar eu cyfer.
- Dylid glanhau a diheintio cyfarpar personol (pensetiau, microffonau, radios ac ati) cyn eu dosbarthu, ac yna bob diwrnod.
- Pan fydd angen microffonau radio, sefydlwch brotocol ar gyfer eu glanhau cyn eu dosbarthu ac ar ôl iddynt gael eu dychwelyd, ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut y gall y cyflwynydd/cyfrannwr osod y microffon ei hun.

### Cynllunio

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu digon o gyfarpar glanhau priodol sy'n hawdd

cael gafael arno, y gellir ei ddefnyddio drwy gydol y diwrnod, yn enwedig mewn ardaloedd a rennir fel cyfleusterau lles ac wrth fynedfa ac allanfa unrhyw set/lleoliad.

## Pobl

- Ewch ati i lanhau cyfarpar mewn gweithleoedd ar ddechrau ac ar ddiwedd sifft/sesiwn waith, neu pe bai'r lle/cyfarpar yn cael ei rannu rhwng gwahanol ddefnyddwyr.
- Cofiwch gadw cyn lleied ag y bo modd o eitemau hanfodol nad ydynt yn gysylltiedig â'r gwaith yn y gweithle.

## 5. Patrymau Gwaith

*Yn anochel, gall rhagofalon ychwanegol ar gyfer rheoli risg COVID-19 arwain at gynyddu'r amser paratoi ac amser cyffredinol y cynhyrchiad. Fe fydd yna bwysau i weithio o fewn amserlenni a themtasiwn posibl i ymestyn yr 'oriau camera' a'r diwrnod gwaith er mwyn gallu cwblhau gwaith. Rhaid ystyried ac ymdrin â hyn o fewn y diwylliant cynhyrchu, o sesiynau briffio cychwynnol i achosion dyddiol o ategu negeseuon allweddol. Er y bydd llawer o bobl yn awyddus i ddychwelyd i'r gwaith, fe fydd llawer o bobl eraill yn bryderus ynghylch risgiau iechyd COVID-19. Dylid ystyried effaith hyn ar dimau cynhyrchu wrth lunio'r amserlen waith, ac fe allai effeithio ar hyd y diwrnod gwaith a ystyrir yn briodol ar hyn o bryd. Efallai hefyd y gall patrymau gwaith eich galluogi i gael grwpiau bach (carfannau) o bobl na fyddant yn dod i gysylltiad â grwpiau eraill. Dylid ystyried hyn wrth gynllunio.*

## Cynllunio

- Cyn belled ag y bo modd, cadwch dimau o weithwyr gyda'i gilydd (mewn carfan), a chadwch y timau mor fach â phosibl.
- Trefnwch egwylion cinio dros wahanol amseroedd ac ati er mwyn lleihau'r niferoedd (gweler yr adran manau gorffwys).
- Pan fydd grwpiau o garfannau'n cyfarfod, rhaid parhau i gadw pellter cymdeithasol yn unol â'r canllawiau a nodir yn yr adrannau blaenorol.
- Dylid ystyried trefnu i bobl gyrraedd a gadael lleoliadau ar wahanol amseroedd er mwyn helpu i reoli pellter cymdeithasol.

## 6. Mannau Gorffwys

*Mae manau gorffwys yn bwysig iawn, ond efallai y bydd yn rhaid eu hailwampio a'u cynllunio o amgylch egwylion er mwyn sicrhau bod manau gorffwys mor ddiogel ag y bo modd. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

## Corfforol

- Ystyriwch addasu'r cynllun er mwyn annog pobl i eistedd ar wahân.
- Offer gweini dŵr/coffi – eu glanhau'n amlach.
- Ni ddylai pobl eraill orfod clirio/golchi llestri, cyllyll a ffyrc, cwpanau ac ati. Gellir cyflawni hyn trwy ddod â rhai gyda chi o'ch cartref. Bydd y perchennog yn gyfrifol am eu glanhau a sicrhau bod modd eu hadnabod. Gallwch hefyd ddarparu eitemau untro (dylid sefydlu'r drefn ar gyfer eu gwaredu). Hefyd, dylid ystyried yr effaith amgylcheddol wrth benderfynu sut i fynd i'r afael â'r mater hwn. Os nad yw'r naill ddewis na'r llall yn bosibl, byddai'n rhaid i unrhyw brotocol a chyfundrefn lanhau ystyried y risgiau i'r rhai a fyddai'n darparu'r gwasanaeth.
- Dylid darparu cyfleusterau golchi dwylo/diheintio dwylo mewn manau gorffwys er mwyn annog pobl i'w defnyddio'n rheolaidd, yn enwedig ble mae pobl yn bwyta.

- Ystyriwch ddarparu cadachau diheintio y tu allan i gyfleusterau er mwyn i unigolion allu eu defnyddio i lanhau ar eu ffordd i mewn i ategu glanhau rheolaidd.
- Ystyriwch dulliau priodol o ddarparu a chyflenwi bwydydd/diodydd fel y gellir cadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol wrth eu paratoi a'u gweini, gan leihau'r angen i'w trosglwyddo'n uniongyrchol o unigolyn i unigolyn.

### Cynllunio

- Trefnwch egwylion mewn modd a fydd yn sicrhau bod cyn lleied o bobl â phosibl gyda'i gilydd yr un pryd.
- Cyngor ac arwyddion clir yn sôn am hylendid da a rhagofalon eraill.
- Cyfyngwch ar nifer y bobl mewn toiledau ar unrhyw adeg a threfnwch i'r cyfleusterau gael eu glanhau'n rheolaidd.

### Pobl

- Dylai pobl roi eu sbwriel yn syth yn y bin er mwyn lleihau'r angen i lanhau ar eu hôl.

## 7. Cymorth Cyntaf a'r Gwasanaethau Brys

*Ystyriwch fod y gwasanaethau brys dan bwysau mawr ac na fydd modd iddynt, efallai, ymateb mor gyflym. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Coronafeirws (COVID-19) yn peri risg bosibl i swyddogion cymorth cyntaf. Dyma fesurau rheoli i'w hystyried;*

### Corfforol

- Dylid cynyddu'r ddarpariaeth feddygol ar y set er mwyn ymdrin, yn y lle cyntaf, ag unrhyw argyfwng.

### Cynllunio

- Ystyriwch a yw'n briodol cynyddu darpariaeth feddygol y Cynhyrchiad tra bydd risg y Coronafeirws (COVID-19) yn bresennol.
- Ystyriwch pryd y dylid ffilmio golygfeydd risg uwch, fel rhai a chanddynt styntiau ac effeithiau arbennig, a'r galw posibl ar y gwasanaethau brys.
- Dylid archwilio bocsys cymorth cyntaf yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn llawn eitemau, a phan fo modd dylent gynnwys amddiffynwyr wyneb ar gyfer dadebru.
- Dylid dweud wrth yr holl swyddogion cymorth cyntaf am ddarllen canllawiau diweddaraf y Llywodraeth ar ddadebru cardio-anadlol, [\[https://www.gov.uk/government/publications/novel-coronavirus-2019-ncov-interim-guidance-for-first-responders/interim-guidance-for-first-responders-and-others-in-close-contact-with-symptomatic-people-with-potential-2019-ncov\]](https://www.gov.uk/government/publications/novel-coronavirus-2019-ncov-interim-guidance-for-first-responders/interim-guidance-for-first-responders-and-others-in-close-contact-with-symptomatic-people-with-potential-2019-ncov)

### Pobl

- Dylid ystyried a yw swyddogion cymorth cyntaf yn dal i fod yn gyfforddus gyda'u rôl mewn argyfwng, ac os nad ydynt dylid cynnig darpariaeth amgen briodol.

## 8. Masgiau, Menig a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) Arall

Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), a dim ond ar ôl ystyried a/neu weithredu mesurau rheoli eraill y dylid rhoi ystyriaeth i'w ddefnyddio. Yn gyffredinol, nid yw'n briodol cael PPE o safon feddygol. Yr eithriadau hynod brin yn hyn o beth yw wrth ffilmio mewn lleoliadau lle ceir risg uwch o COVID-19, fel mewn ysbytai; ond trwy wahoddiad yr awdurdod ysbyty perthnasol y byddai hyn yn digwydd. Mae'r dasg o bennu beth yw PPE priodol

mewn amgylchiad arbennig yn gymhleth, a dylid ceisio cyngor bob amser gan eich cynghorydd iechyd a diogelwch. Rhaid gwisgo, diosg a gwaredu pob eitem PPE yn y ffordd gywir.

### **Masgiau Wyneb (ac Amddiffynwyr Wyneb)**

- **Gwarchod y Gymuned – Gorchuddion Wyneb (*gwarchod eraill*)**

I warchod y gymuned mae'r sawl sy'n gwisgo'r eitemau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o drosglwyddo'r feirws i eraill – dim ond pan fydd mwyafrif yr unigolion yn y 'gymuned' yn defnyddio masgiau y mae'r dull hwn yn effeithiol.

Mae gorchuddion wyneb i warchod y gymuned yn un strategaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn nifer o diriogaethau. Mae'r fanyleb mewn perthynas â'r diben hwn yn wahanol i'r masgiau hynny a ddarperir ar gyfer diogelwch personol. Bydd modd i'ch cyngorwyr iechyd a diogelwch ddarparu'r cyngor diweddaraf.

Yn y DU, dyma'r cyngor presennol;

*Os oes modd, gwisgwch orchudd wyneb pan fyddwch mewn man caeedig lle mae cadw pellter cymdeithasol yn amhosibl, a phan fyddwch yn dod i gysylltiad â phobl nad ydych fel arfer yn eu cyfarfod. Mae hyn yn fwyaf perthnasol am gyfnodau byr dan do mewn ardaloedd poblog, er enghraifft, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn rhai siopau.*

- **Diogelwch Personol (*eich diogelu eich hun*)**

Dylid rhoi ystyriaeth benodol i fasnau wyneb ar gyfer cyfarpar diogelu personol (PPE) o fewn cynllun PPE cyffredinol. Dim ond wrth ffilmio mewn lleoliadau risg uwch fel ysbytai y dylai'r rhain fod yn angenrheidiol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid ceisio canllawiau gan y sefydliad dan sylw ynghylch darpariaeth, protocolau a hyfforddiant priodol.

At ddibenion diogelwch personol, mae'r masg yna i ddiogelu'r sawl sy'n ei wisgo rhag dal y feirws mewn lleoliadau risg uwch ac efallai y bydd angen ei wisgo gydag amddiffynnydd wyneb a PPE arall. Dylid nodi bod canllawiau presennol Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn dweud nad yw'r DU ar hyn o bryd yn cynghori y dylid defnyddio masgiau wyneb y tu allan i leoliadau gofal.

Er mwyn darparu diogelwch personol priodol, rhaid i fasnau wyneb a phob eitem PPE fod o'r fanyleb iawn, FFP2 neu uwch, a rhaid eu ffitio a'u gwisgo yn y ffordd briodol, eu newid yn aml, eu diosg yn briodol a'u gwaredu mewn modd diogel.

### **Menig**

Ar gyfartaledd rydych yn cyffwrdd eich wyneb oddeutu 20 gwaith yr awr. Pe baech yn cyffwrdd eich wyneb â'ch menig, fe allech barhau i drosglwyddo'r feirws. Os ydych yn gwisgo menig, dylid eu golchi, neu eu diosg a'u newid, mor aml ag y byddech yn golchi eich dwylo, ac ni ddylech eu defnyddio yn lle darpariaethau ac arferion hylendid da.

## **PPE Arall**

Efallai y bydd angen mathau eraill o gyfarpar personol i amddiffyn rhag COVID-19. Gall y feirws fynd i mewn i'r corff trwy'r llygaid yn ogystal â thrwy'r trwyn a'r geg, felly efallai y bydd amddiffynwyr wyneb yn briodol. Gellir ystyried gwisgo ffedogau neu yna os credir bod yna risg o halogi dillad.

## **9. Iechyd Meddwl**

*Mae'n bosibl bod risg COVID-19 a'r ymateb i'r feirws wedi cael effaith ar Iechyd Meddwl y rhai sy'n gweithio ar eich cynyrchiadau. Dyma bethau allweddol i'w hystyried wrth reoli hyn;*

### **Corfforol**

- Darparwch fannau i bobl 'orffwys' ac ymlacio yn ystod y diwrnod gwaith.

### **Cynllunio**

- Ystyriwch pa fynediad sydd gan dimau cynhyrchu at gymorth iechyd meddwl.

### **Pobl**

- Gwnewch yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o lwybrau at gymorth (fel Rhaglen Cymorth i Weithwyr).
- Cynyddwch ymwybyddiaeth o heriau personol yn y cartref a'r gwaith yn ystod y cyfnod hwn.
- Dylid rhoi ystyriaeth i reoli lludded cyffredinol ymhlith y cast/criw yn sgil addasu amserlenni.
- Byddwch yn dryloyw o safbwynt cynlluniau i reoli risgiau COVID-19 yn ystod y cynhyrchiad.

**Sylwer:** Un llwybr at gymorth ar gyfer diwydiant Ffilm a Theledu y DU yw

<https://filmtvcharity.org.uk/>

Sefydliadau ac unigolion yr ymgynghorwyd â nhw wrth lunio'r canllawiau hyn:

- First Option
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Yr Elusen Ffilm a Theledu
- Equity
- Bectu
- Northern Ireland Screen
- Cymru Greadigol (Yr Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru)
- Llywodraeth yr Alban
- Creative Scotland
- Directors UK
- Unite
- Comisiwn Ffilm Prydain
- Sefydliad Ffilm Prydain
- Dr Paul Litchfield CBE
- Mary Lawrence, Partner, Osborne Clarke LLP